

# Hafod Garth Celyn, Abergwyngregyn

gan Edgar Pritchard

Mae cyfystyron Cymreig gwreiddiol yn amal iawn yn cael eu sillafu a'u hysgrifennu yn gamarweiniol yn y Saesneg gan y Saeson wrth geisio ysgrifennu enwau llefydd Cymreig. Ac yn y fan hon, am ei fod yn arbennig yn ymwneud â theyrnasiad tywysogion Gwynedd a Chymru, mae nifer o ymdrechion wedi eu gwneud i ddinistrio'n hatgofion ni, y Cymry, am y lle arbennig hwn yn ein hanes fel cenedl.

Rwyf yn gobeithio y gall y Cynulliad Cymreig gytuno â mi, a gwneud y fangre arbennig a hynafol hon yn argyhoeddedig.

1. Cynghori Cyngor Sir Gwynedd, i ddatgelu llawer mwy o'r gwir hanes, yn benodol, Garth Celyn neu Hafod Garth Celyn.
2. Cael gwell darlun o adfeilion y Llys tywysogaidd hwn, o'r tirwedd ac o'r awyr.
3. Cadarnhau mai Garth Celyn fydd o hyn ymlaen yr enw swyddogol a chyfreithlon ar brif Lys Tywysogion Gwynedd yn Abergwyngregyn, a dim Garth Gelyn.

Yn yr amser pan oedd y Gwyddelod yn trigo yma yn y blynyddoedd 200-400, enw y fangre hon oedd Grokeen. Yn ddiweddarach, tua'r flwyddyn 500, galwyd y Llys hwn yn Tintaiol gan y Brythoniaid. (Fe gofiwlch mai Tintagel oedd enw Llys y Brenin Arthur yng Nghernyw.) I Tintaiol yr encilioedd y Tywysog Dafydd, mab Siwan, pan aeth yn wael ac y colodd ei wallt ac ewinedd ei ddwylo cyn marw yma yn y flwyddyn 1246; fe'i claddwyd yn Aberconwy.

Yn ddiweddarach, yn amser y Tywysogion Cymreig, fe'i galwyd yn Garth Celyn, neu Hafod Garth Celyn. Ymdrech gan rywrai i chwalu atgofion a diddymu hanes Cymru a'i



Hafod Garth Celyn, Abergwyngregyn – Llys y Tywysogion Cymreig.

*Mae y lle henafol hwn mewn pant cysgodol ym mlaen Dyffryn Anafon.*

*Mae'n debyg bod yma aneddiad o sawl cyfnod.*

*Y Gwyddelod Cynnar 200-300 = Grokeen; Y Brythoniaid 500-800 = Tintaiol;*

*Y Tywysogion Cymreig 1282 = Garth Celyn*

*Anafon: Yma yn yr afon hon y golchid archollion ac anafau (Anaf-Afon) yn dilyn brwydrau.*

thywysogion oedd ei alw yn Garth Gelyn (Summer dwelling of the Enemy).

Gwelwch yn 'Ordinance Survey Map Ref. 67e-71n', lythyr a ddanfonwyd at olygydd yr Ordinance Survey Products, Romsey Road, Southampton, SO16 4GU ar 8/10.2000 yn cywiro hyn.

Do, fe gariwyd meini o'r Llys yn Garth Celyn i adeiladu castell Conwy, gan Edward I. Eu cludo i lawr i Abergwyngregyn at afon Menai gyda throl a cheffyl, ac ar draws y môr mewn llongau i Gonwy. Fel y gwnaethpwyd yn Aberffraw, pan gariwyd meini o'r Llys yn

y fan honno gyda cheffylau a throliau i lawr i'r afon Ffraw, ac wedyn ar draws y môr i adeiladu Castell Caernarfon. A hyn oll mewn ymdrech i chwalu a dinistrio yn llwyr y sofraniaeth Gymreig yng Ngwynedd ac israddio ein cenedl, yr iaith a'i phobl, mewn gobaith rhyw ddiwrnod i'n gwneud ni yn Saeson rhonc eilradd.

Onid all neb byth ddileu y gwir, ddim hyd yn oed Brenin Lloegr, Edward I, na'r gwir Arglwydd, y gŵr anfoesgar a llygredig hwnnw oedd yn casau y Cymry, sef Archesgob Caergaint, John Peckham.

Emrys Evans, Cheltenham

## Yn canu clodydd Twm y Ceffyl Gwedd

Un o gyfeillion anwes arbennig ym mlynyddoedd cynnar fy machgendod oedd Twm, Tŷ Mawr, Pen Aran, Llanuwchllyn, ardal a ailgynullodd enaid Cymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ceffyl gwedd oedd Twm, yn gryf ac yn grwn at alwad ei feistr, ac yn wastad o anianawd goddefgar. Ie, creadur yn llawn o ryw heulwen cyfrin ydoedd yn llawnder ei hunan gorffenedig.

Yn achlysurol, yn ystod gwyliau'r haf o'r ysgol, gwersyllais mewn cae cyfagos i'w ystabl. Robert Hywel Edwards oedd ei feistr ac efe a'm cyflwynodd i Twm, cyn imi dreulio rhai oriau yn ei gwmni yn ystod y cynhaeaf gwair. A minnau wrth ei ben, tynnai ei gar-llusg yn osgeiddig hamddenol. Dyna'r adeg i ni gael sgwrs a dod i adnabod ein gilydd, ac i minnau gael lle gwarantus ar ei gefn ar ddiwedd dydd. Perthynai iddo rhyw awyrgylch arbennig. Nid gor-ramanteiddio yw sylwi ar natur yr awyrgylch a ymgawdolai. Awyrgylch o hyfrydwch ydoedd fel pe taef wedi gofyn bendith o flaen pob pryd o geirch ar hyd ei oes.

Yn rheolaidd wythnosol, arferai ei feistr 'gadw dyletswydd'. Yn y bore, tua hanner awr wedi naw ar ei aelwyd y cynhaliodd y ddefod deuluaidd arbennig hon.

Yr oedd Twm yn dal yn yr ystabl heb alwad. Yn gynharach yn y bore,

sgrwbiwyd wyneb y ford hir yn glaerwyn, fel megis paratoi allor i'r bara a graswyd yn y man yn y popty mawr.

Eisteddem o gwmpas y ford, y gwas a minnau, y gwas bach. Symudwyd y Beibl mawr teuluaidd o'r parlwr a'i agor ar ben uchaf y ford, lle'r eisteddai y meistr, yn barod i 'dorri bara y bywyd'.

Ym mhen isaf y ford yr eisteddai y

gwas â'i gap ar ei ben-glin. Ar law chwith y meistr yr eisteddwn innau, a'r ddau gi wrth fy nhraed o dan y ford. Yr oedd muriau'r hen gegin a muriau'r bwtri rhyngom ni a Twm. Ond yn fy nychymyg byrd hynny, dyna'r adeg i Twm blygu ei ben yn ein cwmni. Sylwer mai wrth y tân, ar ochr y popty mawr, yr eisteddai Ruth

*(Parhad ar dudalen 15)*



Tŷ Mawr, Pen Aran, Llanuwchllyn.